# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Prendergast Community School

Dyddiad yr arolygiad: 02/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymunedol Prendergast yn ysgol gymunedol gynhwysol a chefnogol a chanddi ddiwylliant diogelu cryf. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn gallu dylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy eu grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. Mae ymddygiad da disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd dysgu digynnwrf.

Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn meithrin ymgysylltiad brwdfrydig disgyblion mewn dysgu. Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi, gwaith grŵp ac adborth effeithiol sy'n helpu disgyblion i ddeall eu camau nesaf. Mae staff yn defnyddio asesu'n dda i fonitro cynnydd, gyda chefnogaeth hynod gryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y rhai o aelwydydd incwm isel a theuluoedd y lluoedd arfog.

Mae staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn helpu llunio cwricwlwm yr ysgol, ac mae hyn yn golygu ei fod yn adlewyrchu'r gymuned leol a'r byd ehangach yn dda. Mae profiadau gwerthfawr yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn hyrwyddo hunaniaeth a pherthyn yn dda. Yn aml, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu dychmygus ar gyfer disgyblion, ond weithiau mae gormod o opsiynau i ddisgyblion ddewis o'u plith. O bryd i'w gilydd, nid yw dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn ddigon agos. Mae amgylcheddau dysgu'r ysgol, yn cynnwys ystod o ardaloedd diddorol yn yr awyr agored, yn tanio chwilfrydedd disgyblion ac yn cynnal eu diddordeb yn dda.

Mae disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg ac yn datblygu medrau da wrth siarad Cymraeg. Mae addysgu darllen yn systematig yn datblygu disgyblion i fod yn ddarllenwyr rhugl. Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, er bod arweinwyr yr ysgol yn cydnabod bod angen mwy o gysondeb mewn cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig. Mae addysgu mathemateg yn adeiladu dealltwriaeth disgyblion o rif a rhesymu yn dda, gyda chyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn cynnal ffocws cryf ar les a chynnydd disgyblion. Mae prosesau monitro a gwerthuso yn gadarn, ac mae dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliannau mewn addysgu a chynllunio'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i leihau effaith tlodi. Mae perthnasoedd cryf â rhieni a phartneriaethau ag ysgolion eraill yn ehangu'r ddarpariaeth ac yn helpu lleihau annhegwch.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Mireinio'r defnydd o weithgareddau dysgu annibynnol fel bod disgyblion yn ennill dealltwriaeth well o'u dysgu ac yn cwblhau gwaith o ansawdd cyson uchel.

A2 Parhau i gryfhau addysgu i sicrhau bod profiadau dysgu a dulliau addysgu yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026